

Cyfnod Sylfaen
- Ôl-16



Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol

Mae rhagor o gopïau ar gael gan:

Y Gwasanaeth Gwellu Ysgolion
Tŷ'r Dalaith
Heol Kendrick
Y Barri
CF62 8UF

Cyhoeddwyd ym mis Mai 2008

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	5
Gofynion statudol	7
Cynllunio ar gyfer addysg grefyddol	13
Cyfrifoldebau ysgolion	14
Hawliau dysgwyr	15
Sgiliau ledled y cwricwlwm	17
Dysgu ledled y cwricwlwm	18
Agweddau ar addysg grefyddol	20
Cynnydd mewn addysg grefyddol	22
Crynodeb o ofynion ledled yr ysgol	25
Addysg grefyddol yn ystod y Cyfnod Sylfaen	26
Canlyniadau ar gyfer addysg grefyddol	30
Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2	32
Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3	34
Disgrifiadau o lefelau	36
Addysg grefyddol yn ystod Cyfnodau Allweddol 4 ac Ôl-16	39
Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4	40
Addysg grefyddol ôl-16	43

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r Maes Llafur Cytûn diwygiedig ar gyfer addysg grefyddol ym Mro Morgannwg.

Dyddiadau gweithredu

Mae'r Maes Llafur Cytûn hwn yn ddogfen statudol i ddisgyblion ac ysgolion fel yr amlinellir ar y tudalennau canlynol, ac mae'n dod i rym ar:

- 1 Awst 2008 ar gyfer plant 3 i 5 mlwydd oed yn y Cyfnod Sylfaen
- 1 Awst 2009 ar gyfer plant 5 i 6 mlwydd oed yn y Cyfnod Sylfaen
- 1 Awst 2010 ar gyfer plant 6 i 7 mlwydd oed yn y Cyfnod Sylfaen
- 1 Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 3, 4 a 5 a Blynyddoedd 7 ac 8
- 1 Awst 2009 ar gyfer Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9
- 1 Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 10, 11, 12 a 13.

Disodlir y Maes Llafur Cytûn cyfredol o'r dyddiadau hyn. Fodd bynnag, gall ysgolion roi'r Maes Llafur Cytûn hwn ar waith yn gynharach na'r dyddiadau a nodwyd os yw hyn yn cyd-fynd â gwaith cynllunio a threfnu cwricwlwm yr ysgol.

Cyngor Bro Morgannwg
Ionawr 2008

Cyflwyniad

Mae addysg grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain yn annog disgyblion i archwilio amrywiaeth o gwestiynau athroniaethol, diwinyddol, moesegol ac ysbrydol mewn ffordd fyfyrion, ddadansoddol a chytbwys sy'n ysgogi cwestiynau a thrafodaethau. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ddeall cwest dynoliaeth am ystyr, yr agweddau cadarnhaol ar ddealltwriaeth aml-ffydd/aml-ddiwylliant a dealltwriaeth ac ymatebion y disgyblion eu hunain i fywyd a chrefydd. Mae addysg grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain yn defnyddio dull agored, gwrthrychol, archwiliadol sydd â'r nod o hybu dealltwriaeth a pharch at bawb gan gydnabod tebygrwydd a gwahaniaeth ac adnabod gwerthoedd a rennir.

Mae'r Maes Llafur Cytûn hwn yn darparu fframwaith statudol sy'n cefnogi'r egwyddorion uchod i ysgolion.

Gofynion Statudol

Mae'r adran isod yn crynhoi'r gofynion statudol sy'n berthnasol i feysydd llafur cytûn lleol.

Datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol

'(1) Mae cwricwlwm ar gyfer ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir yn bodloni gofynion yr adran hon os yw'n gwricwlwm cytbwys a chyffredinol eang sy'n:

(a) hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a chymdeithas, ac

(b) yn paratoi disgyblion yn yr ysgol ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau eu bywydau diweddarach.

(2) Mae'r cwricwlwm ar gyfer unrhyw addysg feithrin a ariennir na ddarperir mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, yn bodloni gofynion yr adran hon os yw'n gwricwlwm cytbwys a chyffredinol eang sy'n:

(a) hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion y darperir yr addysg feithrin a ariennir iddynt a chymdeithas, ac

(b) yn paratoi'r disgyblion hynny ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau eu bywydau diweddarach.'

(Deddf Addysg 2002, Adran 99 (1)(a)(b)(2)(a)(b))

Dylai addysg grefyddol, ynghyd â phynciau eraill yn y cwricwlwm, hybu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae'r rhain yn agweddau hanfodol ar addysg grefyddol sydd wedi'u hymgorffori yn y rhaglenni astudio ac y dylid eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gwaith a ddatblygir gan ysgolion.

Addysg grefyddol yn y cwricwlwm sylfaenol – gofynion ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion

'(1) Bydd gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru gwricwlwm sylfaenol sy'n cynnwys:

(a) darpariaeth addysg grefyddol ar gyfer holl ddisgyblion cofrestredig yr ysgol (yn unol â darpariaethau perthnasol Atodlen 19 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) fel sy'n berthnasol yng nghyswllt yr ysgol)...

(b) cwricwlwm ar gyfer holl ddisgyblion cofrestredig ysgol sy'n dair blwydd oed ond nad ydynt yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (sef "Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru")'

'(2) Nid yw Is-adran (1)(a) yn berthnasol:

(a) yng nghyswllt dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd, neu

(b) yng nghyswllt ysgol arbennig a gynhelir (bydd darpariaethau addysg grefyddol mewn ysgolion arbennig yn cael eu gwneud gan reoliadau dan adran 71(7) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31)).'

(Deddf Addysg 2002, Adran 101 (1)(a)(2)(a)(b))

Mae addysg grefyddol yn rhan o hawl disgyblion i dderbyn Cwricwlwm Sylfaenol ac mae'n rhaid ei ddarparu ynghyd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'n rhaid darparu addysg grefyddol i holl ddisgyblion cofrestredig ysgol yn cynnwys y rhai mewn dosbarthiadau derbyn a'r rhai yn y chweched dosbarth.

I blant mewn lleoliadau na gynhelir a meithrinfeydd AALL, mae'r Maes Llafur Cytûn hwn yn darparu hawl anstatudol i archwilio pobl, chredoau a chwestiynau.

Mae addysg grefyddol yn ofyniad statudol i bob disgybl Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16. Mae'r Maes Llafur Cytûn yn darparu rhaglenni astudio i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16. Fel arall, gellir dilyn cwrs sy'n cynnig achrediad er mwyn bodloni'r hawl statudol i dderbyn addysg grefyddol yn ystod y Cyfnodau Allweddol hyn.

Dylai Ysgolion Arbennig ddarparu addysg grefyddol i ddisgyblion yn unol â'r Maes Llafur Cytûn cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol.

Gofynion addysg grefyddol ar gyfer gwahanol ysgolion:

Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol:

'darpariaeth addysg grefyddol sy'n unol â maes llafur cytûn a fabwysiadwyd ar gyfer yr ysgol yw'r ddarpariaeth addysg grefyddol ofynnol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol...'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 19 paragraff 2(2))

Mae'n rhaid i ysgolion nad oes ganddynt gymeriad crefyddol ddarparu addysg grefyddol yn unol â'r Maes Llafur Cytûn hwn.

Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol:

'(2) y ddarpariaeth addysg grefyddol ofynnol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol yw darpariaeth addysg grefyddol

- (a) sy'n unol ag unrhyw drefniadau a wnaed dan is-baragraff (3), neu
- (b) yn destun unrhyw drefniadau o'r fath, yn unol â maes llafur cytûn a fabwysiadwyd ar gyfer yr ysgol...'

'(3) Lle mae rhieni unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol yn gwneud cais iddynt dderbyn addysg grefyddol

- (a) yn unol ag unrhyw ddarpariaethau'r ddogfen ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol, neu
- (b) lle nad yw dogfen o'r fath yn darparu ar gyfer y diben hwnnw, yn unol â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol dan adran 69 (4), bydd y llywodraethwyr yn gwneud trefniadau i sicrhau y darperir addysg grefyddol o'r fath i'r disgyblion hynny sydd yn yr ysgol yn ystod dim mwy na dau gyfnod bob wythnos (oni bai eu bod yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud hynny oherwydd unrhyw amgylchiadau arbennig).'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 19 paragraff 3)

Mae'n rhaid i ysgolion gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol ddarparu addysg grefyddol yn unol â'r Maes Llafur Cytûn hwn. Fodd bynnag, ar gais gan riant, dylid trefnu i addysg grefyddol gael ei darparu i'w plentyn/plant yn unol ag unrhyw ddogfen ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefyddol yr ysgol oni bai fod llywodraethwyr y sefydliad yn teimlo bod gwneud hynny'n afresymol. Dylid darparu'r addysg grefyddol enwadol i'r disgyblion hynny yn ystod dim mwy na dau gyfnod bob wythnos a dylai athrawon neilltuedig sydd wedi'u penodi'n benodol eu haddysgu (Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Pennod V 58 (2)).

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr â chymeriad crefyddol:

'(2) y ddarpariaeth addysg grefyddol ofynnol ar gyfer ysgolion yn yr ysgol yw darpariaeth addysg grefyddol

- (a) sy'n unol ag unrhyw ddarpariaethau'r ddogfen ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol, neu
- (b) lle nad yw dogfen o'r fath yn darparu ar gyfer y diben hwnnw, yn unol â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol dan adran 69(4), neu
- (c) yn unol ag unrhyw drefniadau a wneir dan isadran (3).

(3) Lle mae rhieni unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol

- (a) yn dymuno iddynt dderbyn addysg grefyddol yn unol â maes llafur cytûn a fabwysiadwyd gan yr awdurdod addysg lleol, a
- (b) na all y rhieni alluogi â chyfleustra rhesymol i'r disgyblion hynny fynychu ysgol lle defnyddir y maes llafur, bydd y corff llywodraethu'n gwneud trefniadau i addysg grefyddol sy'n unol â'r maes llafur hwnnw gael ei darparu i'r disgyblion hynny yn yr ysgol (oni bai ei fod yn fodlon y byddai gwneud hynny'n afresymol oherwydd unrhyw amgylchiadau arbennig).'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 19 paragraff 4)

Mae'n rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr â chymeriad crefyddol ddarparu addysg grefyddol y penderfynir arni gan y llywodraethwyr yn unol â'r ddogfen ymddiriedolaeth neu ddaliadau crefyddol yr ysgol. Fodd bynnag, gellir darparu'n unol â'r Maes Llafur Cytûn hwn ar gais rhieni, os na all eu plentyn/plant fynychu'n gyfleus ysgol lle defnyddir y maes llafur, oni bai fod yr Awdurdod yn fodlon y byddai'n afresymol gwneud darpariaeth o'r fath.

Cristnogaeth a Chrefyddau'r Byd

'Bydd pob maes llafur cytûn yn adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yw traddodiadau crefyddol Prydain Fawr yn bennaf, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr.'

(Deddf Addysg 1996, Adran 375 (3))

Mae'r Maes Llafur Cytûn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gristnogaeth gael ei astudio yn ystod pob cam / cyfnod allweddol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i archwilio agweddau ar amrywiaeth o grefyddau a systemau cred eraill y byd yn ystod pob cam / cyfnod allweddol. Gan mai pwyslais y Maes Llafur Cytûn hwn yw hybu dealltwriaeth o ddilynwyr ffydd a'u credoau a'u harferion, nid yw'n nodi'r wybodaeth (crefyddau penodol) y dylid ei hastudio. Er mwyn ennill dealltwriaeth o greddau crefyddol, dylai disgyblion archwilio amrywiaeth o syniadau trwy ddull sgiliau.

Addysgu anenwadol

'Ni fydd unrhyw faes llafur cytûn yn darparu i addysg grefyddol gael ei darparu i ysgolion mewn ysgol y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddi trwy unrhyw gatecism neu fformiwlari sy'n wahanol i unrhyw enwad crefyddol penodol (ond ni ddylid ystyried bod hyn yn gwahardd maes llafur o'r fath rhag darparu ar gyfer astudio unrhyw gatecism neu fformiwlari o'r fath).'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 19: paragraff 2(5))

Mae'n rhaid i'r hyn a addysgir o'r Maes Llafur Cytûn hwn fod yn anenwadol ond nid yw addysgu am gatecism neu fformiwlari penodol wedi'i wahardd. Gall athrawon nodi gwahaniaethau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion y traddodiadau crefyddol a astudir, ond mae'n rhaid iddynt osgoi hyrwyddo safbwyntiau anenwadol. Mae'n rhaid i'r iaith a ddefnyddir gan athrawon fod yn wrthrychol gan beidio â hyrwyddo cred benodol neu dybio bod gan ddisgyblion gred gyffredin.

Hawl Disgyblion i Gael eu Hesusodi

Disgyblion:

'(1) Os bydd rhiant disgybl mewn ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol yn gwneud cais iddo gael ei esgusodi'n gyfan gwbl neu'n rhannol
a) rhag derbyn addysg grefyddol a ddarperir yn yr ysgol yn unol â chwricwlwm sylfaenol yr ysgol
b) ...
c)...
caiff y disgybl ei esgusodi tan y bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl.'

(Deddf Safonau a Fframwaith 1998, Adran 71)

Tra bod rhieni'n parhau i fod â hawl i ofyn i'w plant gael eu hesgusodi rhag derbyn addysg grefyddol, dylid ystyried egwyddorion addysg grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain fel yr amlinellir ar dudalen 5 a thudalen 11 y Maes Llafur Cytûn hwn yn llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau o'r fath.

Athrawon:

'59 Staff mewn ysgol gymunedol, sefydledig seciwlar neu wirfoddol, neu ysgol arbennig
(3) Ni ddylai fod yn ofynnol i unrhyw athro/athrawes yn yr ysgol ddarparu addysg grefyddol
60 Staff mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol â chymeriad crefyddol
(2) Os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a reolir, yna (yn amodol ar isadrannau (3) a (4) isod) bydd adran 59(2) i (4) yn berthnasol i'r ysgol fel y maent yn berthnasol i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir nad oes ganddi gymeriad crefyddol.
(3) Ni fydd Adran 59(2) i (4) yn berthnasol yng nghyswllt athro neu athrawes neilltuedig yn yr ysgol; ac yn hytrach bydd is-adran (5) isod yn berthnasol i athro neu athrawes o'r fath fel y mae'n berthnasol i athro neu athrawes mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr.
...
(8) Yn yr adran hon, mae "athro neu athrawes neilltuedig", yng nghyswllt ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir, yn golygu unigolyn a gyflogir yn yr ysgol yn unol ag adran 58(2).'

(Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Pennod V)

Dylai athrawon fod yn gwbl ymwybodol o amcanion ac egwyddorion addysg grefyddol fel yr amlinellir yn y Maes Llafur Cytûn hwn. Ni ddylai gwaith addysgu addysg grefyddol gyfaddawdu safiadau neu gredoau bywyd unigolion. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi na ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon addysgu addysg grefyddol ac eithrio lle mae'r ddeddfwriaeth yn nodi fel arall yng nghyswllt rhai athrawon (neilltuedig) mewn ysgolion gwirfoddol. Dylai athrawon â phryderon am addysgu addysg grefyddol wneud ymdrech i ddatrys unrhyw bryderon o'r fath trwy drafodaeth gyda'r arweinydd pwnc a Phennaeth yr ysgol.

Cynllunio ar gyfer addysg grefyddol

Mae gorchmynion a fframweithiau cwricwlwm cenedlaethol 2008 yn galluogi ysgolion i fabwysiadu amrywiaeth o wahanol ffyrdd o drefnu'r cwricwlwm. Er enghraifft, nid oes gofyniad i weithio yn ôl amserlen fesul awr anhyblyg a gall ysgolion ddewis datblygu ffyrdd arloesol o ddarparu'r cwricwlwm statudol sy'n dangos mwy o ddychymyg.

Mae'n hanfodol bod ysgolion yn ystyried yn ofalus y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r rhaglenni astudio addysg grefyddol yn llawn yn ystod pob cyfnod, yn cynnwys y ddarpariaeth statudol yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. *

Dylai ysgolion ystyried hefyd unrhyw ganllawiau a gynigir gan yr AALL yng nghyswllt yr agwedd hon ar y Maes Llafur Cytûn.

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod addysg grefyddol yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac felly cynnwys addysg grefyddol yn y cynlluniau ar gyfer darpariaeth barhaus, estynedig sydd â chanolbwynt.

Yn ystod y cyfnodau diweddarach, gallai'r dulliau gynnwys:

- cyfuno'r gwaith o addysgu un neu fwy o bynciau mewn ffordd thematig gan ddefnyddio'r adrannau Ystod o wahanol bynciau sy'n ategu ei gilydd;
- defnyddio cyfres o ddiwrnodau cyfan – yn yr ysgol neu'r tu allan – i ganolbwyntio ar un pwnc penodol; a
- defnyddio'r fframwaith Sgiliau a / neu adran Sgiliau unrhyw un o'r gorchmynion pwnc neu'r Maes Llafur Cytûn fel man cychwyn.

Mae angen cynnwys addysg grefyddol yn y Craidd Dysgu yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16. Dylai gyfrannu mor eang â phosibl at y pedair agwedd ar ddysgu.

Bydd addysg grefyddol yn cyd-fynd yn dda â'r dulliau hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod addysg grefyddol yn agwedd **y gellir ei nodi'n eglur** ar y cwricwlwm, y neilltuir **digon o amser** i gyflawni'r rhaglenni astudio a bod parhad a chynnydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau dysgu.

Wrth gynllunio a threfnu'r cwricwlwm cyfan, mae'n rhaid rhoi'r un pwyslais ar addysg grefyddol a phynciau eraill nad ydynt yn rhai craidd er mwyn bodloni gofynion statudol.

'Mae dull ysgol gyfan yn hanfodol yn ystod pob cyfnod, fel bod gweledigaeth gydlynol a rennir ledled yr ysgol.' (*Manteisio i'r Eithaf ar Ddysgu - Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008*)

* Mae addysg grefyddol yn ofyniad statudol i bob disgybl cofrestredig o'r dosbarth derbyn i addysg ôl-16. Mae'n rhaid darparu addysg grefyddol i bob disgybl yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Hefyd, efallai y bydd rhai disgyblion yn dewis cyrsiau astudiaethau crefyddol sy'n cynnwys arholiadau.

Cynnwys pob dysgwr

Cyfrifoldebau ysgolion

Dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth gyffredin Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gweithredu'r Hawliau, mae'n rhaid darparu addysg i bob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n datblygu ei bersonoliaeth a'i ddoniau'n llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau dyletswydd ysgolion i ddiogelu a hybu lles pob plentyn ac unigolyn ifanc ymhellach.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal, sy'n cynnwys oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol yn ei gwneud yn ddyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru i gael gwared ar achosion o wahaniaethu ac aflonyddu, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal ymhlith dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, a'u hannog i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yn yr ysgol.

Dylai ysgolion ddatblygu ym mhob dysgwr teimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyniol o bobl eraill ac yn eu parchu. Dylai ysgolion gynllunio ledled y cwricwlwm i ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlhiliol yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu dulliau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, er mwyn cynnwys dysgwyr a'u paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang.

Mae'n rhaid i ysgolion weithio i leihau agweddau amgylcheddol a chymdeithasol sy'n rhwystro cynhwysiant a chynig cyfleoedd i bob dysgwr wireddu ei lawn botensial wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd yn y dyfodol. Lle'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau profiadau dysgu perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau'n benodol, dylent:

- wella mynediad at y cwricwlwm
- cyflawni gwelliannau ffisegol i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan ym myd addysg
- darparu gwybodaeth ar ffurfiau priodol.

Dylai ysgolion ofyn am gyngor ar addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/wedi'u haddasu ac offer ac adnoddau priodol, y gellid eu defnyddio i gynorthwyo pob dysgwr i gymryd rhan yn llawn, yn cynnwys y dysgwyr hynny sy'n defnyddio dull cyfathrebu arall yn hytrach na lleferydd.

Dylai ysgolion gymryd camau penodol i gynorthwyo'r dysgwyr hynny nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf i ddysgu'r Gymraeg a'r Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n briodol i'w gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, sydd hefyd yn ehangu eu datblygiad iaith. Dylai ysgolion annog dysgwyr i ddefnyddio iaith eu cartrefi i ddysgu hefyd.

Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gynnwys fel aelod llawn o gymuned ei ysgol, ac yn derbyn mynediad at y cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio gyda'i gyd-ddisgyblion lle bynnag fo hynny'n bosibl. Dylai ysgolion addysgu pob rhaglen astudio a fframwaith mewn ffordd sy'n briodol i aeddfedrwydd a galluoedd datblygol dysgwyr a sicrhau y gall dysgwyr ddefnyddio'n llawn eu dewis o ddull cyfathrebu i gael mynediad at y cwricwlwm. Dylai dysgwyr gael profiad o amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu er mwyn ehangu eu haddysg.

Er mwy galluogi pob dysgwr i gael mynediad at sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar lefel briodol, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gamau neu gyfnodau allweddol cynharach yn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunydd mewn ffyrdd sy'n briodol i oedrannau, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr er mwyn eu cynnwys yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ymhell i law'r lefelau a ddisgwyllir yn ystod unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu'r rhaglenni astudio'n unol â hyn. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb fod angen datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd dysgwyr unigol yn cael eu datgymhwyso, dros dro fel rheol, ond ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Lle nad yw'n bosibl trafod holl gynnwys pob rhaglen astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys trwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm fel cyd-destunau ar gyfer dysgu.

Dylai ysgolion herio mwy ar ddysgwyr mwy galluog a dawnus sy'n gweithio ar lefelau uwch trwy ddefnyddio deunydd mewn ffyrdd sy'n ymestyn lled a dyfnder astudiaethau a chyfleoedd dysgu annibynnol. Gellir cynyddu lefel yr her hefyd trwy ddatblygu a defnyddio'r hyn y meddyllir amdano, a sgiliau cyfathrebu TGCh a rhifau ledled y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd fydd yn:

- cynnig cwricwlwm ystyrion, perthnasol sy'n llawn cymhelliad i'w dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a sicrhau datblygiad cyffredinol pellach.

Dylai prosesau asesu ac achredu priodol fod ar gael i ddysgwyr o bob gallu.

Sgiliau ledled y cwricwlwm

Datblygwyd fframwaith Sgiliau anstatudol ar gyfer plant a phobl ifanc 3 i 19 mlwydd oed yng Nghymru er mwyn cynnig canllawiau ar barhad a chynnydd o ran yr hyn y meddylir amdano, cyfathrebu, TGCh a rhifau i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed.

Yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr adeiladu ar sgiliau maent wedi dechrau eu dysgu a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai dysgwyr barhau i ddysgu, datblygu, ymarfer, defnyddio a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau gr p ac unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ledled y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd trwy'r ffordd mae'r sgiliau hyn yn cael eu mireinio a'u defnydd mewn tasgau sy'n symud o: ddiriaethol i haniaethol; syml i gymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i anghyfarwydd; a chyda chymorth i annibynnol a chyd-ddibynnol.

I ddysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith fod yn sail ar gyfer cynnydd effeithiol o ran ennill amrywiaeth briodol o gymwysterau, yn cynnwys Sgiliau Allweddol.



Datblygu sgiliau meddwl

Mae dysgwyr yn datblygu eu ffordd o feddwl ledled y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**.

Ym maes **addysg grefyddol**, mae dysgwyr yn datblygu sgiliau meddwl trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau sylfaenol a godir trwy brofiad dynol, y byd ac agweddau ar grefydd. Maent yn archwilio ac yn gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, y dysgeidiaethau a'r arferion crefyddol maent yn eu hastudio. Maent yn cynllunio ymchwiliadau trwy gasglu a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a ffynonellau nad ydynt yn grefyddol i werthuso a chyfiawnhau eu hymatebion personol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau beirniadol a datrys problemau er mwyn datblygu syniadau ac archwilio a herio dehongliadau, rhagdybiaethau a phosibiliadau.



Datblygu sgiliau cyfathrebu

Mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ledled y cwricwlwm trwy sgiliau **llefaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**.

Ym maes **addysg grefyddol**, mae dysgwyr yn datblygu sgiliau llefaredd, darllen ac ysgrifennu a sgiliau cyfathrebu ehangach trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae dysgwyr yn gofyn cwestiynau, yn cyfathrebu syniadau ac yn mynegi eu teimladau a'u barn eu hunain gan ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu fel sy'n briodol i'r gynulleidfa a diben y gweithgaredd. Maent yn gwrandao'n ofalus ar bobl eraill, gan nodi cryfderau a gwendidau safbwyntiau neu ymresymiau. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau darllen/ysgrifennu yn dibynnu ar yr ymchwiliad neu'r gweithgaredd maent yn ei gyflawni ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o iaith grefyddol/symbolaidd ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r amrywiaeth o ddehongliadau posibl.



Datblygu sgiliau TGCh

Mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ledled y cwricwlwm trwy **greu, cyflwyno, canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio amrywiaeth eang o offer a meddalwedd.

Ym maes **addysg grefyddol**, mae dysgwyr yn defnyddio TGCh i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth (gan ddefnyddio e-byst a PowerPoint er enghraifft); i gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gan ddefnyddio sgiliau prosesu geiriau a graffeg; i ddod o hyd i wybodaeth ar y rhyngwrdd ac o ffynonellau eraill yn cynnwys CD-ROMau ac ati, a datblygu'r wybodaeth hon, ac i ategu cyflwyniadau llafar a chynhyrchu syniadau a strategaethau i wella effaith eu gwaith.



Datblygu sgiliau defnyddio rhifau

Mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau defnyddio rhifau ledled y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno canfyddiadau**.

Ym maes **addysg grefyddol**, mae dysgwyr yn datblygu sgiliau defnyddio rhifau trwy ddefnyddio gwybodaeth fel rhoi digwyddiadau yn eu trefn gronolegol, trwy fesur amser gan ddefnyddio calendrau crefyddau amrywiol, trwy gyfrifo canrannau rhoi a thrwy ystyried arwyddocâd rhifau o fewn crefyddau. Maent yn dehongli canlyniadau/data ac yn cyflwyno canfyddiadau o holiaduron, graffiau a mathau eraill o ddata er mwyn dod i gasgliadau a gofyn rhagor o gwestiynau am faterion sy'n ymwneud â chrefydd a'r byd.

Dysgu ledled y cwricwlwm

Yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr adeiladu ar y profiadau a enillwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad a'u lles personol a chymdeithasol a'u hymwybyddiaeth o sut mae'r byd yn gweithio.

Yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, dylid datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr a'i defnyddio yng nghyd-destun eu llwybrau 14–19 oed unigol, yn cynnwys y Craidd Dysgu.



Y Cwricwlwm Cymreig (7–14 oed) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19 oed)

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 7-14 oed ddatblygu a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o briodweddau diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 14-19 oed gymryd rhan ymarferol yn y gwaith o ddeall yr agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd yn ei gyfanrwydd. I ddysgwyr 14-19 oed, mae hyn yn rhan o'u hawl Craidd Dysgu ac mae'n ofyniad yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Mae **addysg grefyddol** yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy alluogi dysgwyr i werthfawrogi arwyddocâd, gwerth ac effaith treftadaeth Gristnogol gyfoethog a chyfansoddiad aml-ffydd deinamig Cymru yn y gorffennol a'r presennol. Trwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau cyffrous o'r ardal leol, mae dysgwyr yn cael eu herio i ofyn cwestiynau sylfaenol am ystyr a phwrrpas bywyd ac arwyddocâd ac effaith crefydd a myfyrio crefyddol ar gymdeithas yr unfed ganrif ar hugain. Mae ystyriaethau o'r fath yn cynorthwyo cydlynid cymdeithasol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol/crefyddol a chydweithrediad mewn cymdeithas a chymunedau unigol.

Mae **addysg grefyddol** yn cyfrannu at Gymru, Ewrop a'r byd trwy ofyn cwestiynau llawn her o safbwyntiau crefyddol a safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol: cwestiynau'n ymwneud â phenderfyniadau gwleidyddol, cam-fanteisio a chyfiawnder, rhyddid a chyfrifoldeb cymdeithasol, materion hawliau dynol, cyfoeth ariannol a chyfrifoldeb Cymru i'w ddinesydd hyn a'r rhai mewn rhannau eraill o'r byd, a pherthynas y wlad gyda'r dinasyddion hyn. Mae addysg grefyddol yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu agweddau cadarnhaol i'w cynorthwyo i ymdrin â materion moesol a chrefyddol llawn her gyda chydymdeimlad, gan gynnig tir cyffredin ar gyfer cydweithredu ac archwilio gwerthoedd a chredoau cyffredin yng Nghymru, Ewrop a'r byd.



Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr i hybu eu hiechyd a'u lles a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; i fod yn ddinasyddion gweithredol a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. I ddysgwyr 14–19 oed, mae hyn yn rhan o'u hawl Craidd Dysgu ac yn ofyniad yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Mae **addysg grefyddol** yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol trwy archwilio'r dimensiynau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o grefyddau amrywiol y byd a pharch tuag atynt, ac yn ystyried sut mae crefydd yn effeithio ar benderfyniadau a wneir, a'r ffyrdd o fyw a fabwysiadir gan unigolion a chymdeithasau mewn diwylliannau amrywiol ym mhedwar ban byd. Mae dysgwyr yn canolbwyntio ar ddymuniad llawer o grefyddau i fabwysiadu gwerthoedd a dyheadau fel cydraddoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldeb, heddwch a moesoldeb trwy bethau fel gweithredu cymdeithasol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog hefyd i gwestiynu gwerthoedd a dyheadau eu bywydau eu hunain, bywydau pobl eraill a chymdeithas.



Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 11–19 oed ddatblygu eu hymwybyddiaeth o yrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at eu parodrwydd ar gyfer bywyd gwaith. I ddysgwyr 14–19 oed, mae hyn yn rhan o'u hawl Craidd Dysgu ac mae'n ofyniad yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Mae **addysg grefyddol** yn cyfrannu at yrfaoedd a'r byd gwaith trwy gynnig golwg ar y ffordd mae crefydd yn dylanwadu ar gredinwyr o ran eu dewis o yrfaoedd a'r safonau a ddisgwylir ganddynt yn ystod eu bywydau gwaith. Gellir gwella cydlynid a dealltwriaeth gymunedol yn y gweithle trwy wybodaeth am greddoau ac arferion crefyddol, diwylliannol a moesegol hollbwysig (e.e. gwisgoedd, gwyliau, defodau profedigaeth, ac ati). Mae hon yn wybodaeth hanfodol ar gyfer galwedigaethau fel meddygaeth, gwleidyddiaeth, y gyfraith ac addysg, yn ogystal ag ar gyfer galwedigaethau'n ymwneud â theithio, adloniant, y cyfryngau a'r lluoedd arfog, ac i bob dinesydd yn ein byd aml-ddiwylliant mewn gwirionedd. Yn yr ymgyrch i greu cymdeithas gyfiawn a theg, gall dysgwyr werthuso safbwyntiau crefyddol a moesol amrywiol yn ymwneud, er enghraifft, â hawliau cyflogaeth, entrepreneuriaeth foesegol, moeseg fusnes, benthyg arian, a hyrwyddo prosesau ac arferion diwydiannol gwyrdd a chynaliadwy. Hefyd, mae addysg grefyddol yn cyfrannu at amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy fel dirnadaeth, datrys problemau, ystyriaeth feirniadol a'r gallu i werthuso gwahanol safbwyntiau a phwyso a mesur goblygiadau ac ati. Mae'r holl sgiliau hyn yn sail i lawer o'r priodweddau mae eu hangen yn y byd gwaith cymhleth, llawn her, sy'n newid yn barhaus sydd ohoni.

Agweddau ar addysg grefyddol

Dylid hybu datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol disgyblion ledled cwricwlwm yr ysgol (Deddf Diwygio Addysg 1988).

Er nad yw'n gwbl gyfrifol am ddatblygiad disgyblion yn y meysydd hyn, dylai addysg grefyddol wneud cyfraniad arwyddocaol fel y dangosir isod.

Yn y Maes Llafur Cytûn hwn

Mae'r ysbrydol yn canolbwyntio ar:

- y cwest am ystyr, sy'n mynd y tu hwnt i'r agweddau ffisegol a materol ar fywyd ac yn archwilio ymatebion i Dduw/Realiti Eithaf a gwirionedd
- hanfod yr hyn mae'n ei olygu i fod yn aelod o'r ddynol ryw, sy'n archwilio gwerthoedd a rennir, hunaniaeth, gwerth personol, creadigrwydd, dychymyg, cariad, ffyddlondeb a daioni
- twf 'bywyd mewnol', sy'n canolbwyntio ar ddatblygu chwilfrydedd deallusol, meddwl agored, emosiwn, myfyrdod, greddf a chredoau, yn cynnwys perthynas gyda Duw

Mae'r moesol yn canolbwyntio ar:

- archwilio gwerthoedd ac agweddau a rennir, sy'n amlygu dechreuadau crefyddol/diwylliannol a gweithgareddau cymdeithasol/gwleidyddol cyfoes sy'n dylanwadu ar ein dealltwriaeth ac yn ei herio
- gallu bodau dynol i wneud dewisiadau moesol dros dda neu ddrwg, sy'n canolbwyntio ar ddeall codau moesol, perthnasau, cyfrifoldeb, parch at amrywiaeth, temtasiwn, grym hunanaberth a chariad
- ymateb personol i faterion moesol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gonestrwydd personol, cydwybod, herio arferion personol/cymdeithasol a 'dysgu am yr hyn sy'n haeddu parch a'r hyn nad yw'n haeddu parch' (Hans Küng)

Mae'r diwylliannol yn canolbwyntio ar:

- y ffyrdd mae diwylliant crefydd wedi dylanwadu ar hanes lleol a hanes y byd a phrofiad y ddynol ryw mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, gan archwilio'r gwahaniaeth rhwng safbwyntiau swyddogol a phersonol
- yr angen i fodau dynol fod â synnwyr o hunaniaeth, perthyn a phwrrpas diwylliannol, sydd wedi bod yn amlwg yng Nghymru drwy'r ffordd mae crefydd a diwylliant wedi gweu gyda'i gilydd
- ymateb personol disgyblion i Gymru, Ewrop a byd aml-ddiwylliant/aml-ffydd

Mae'r meddyliol yn canolbwyntio ar:

- heriau deallusol cyflawni gwaith ymchwil, gwerthuso tystiolaeth, meddwl beirniadol, cyfiawnhau safbwyntiau a damcaniaethau, datblygu a dehongli gwahanol esboniadau
- y gallu i ddirnad, herio rhagfarn a gwneud beirniadaethau gwerth a'r ddawn o gyfuno a dadansoddi gwahanol fathau o wybodaeth gymhleth sy'n aml yn mynd yn groes i'w gilydd
- eglurder meddwl, myfyrdod, meddwl greddf, dealltwriaeth symbolaidd a sgiliau dehongli

Mae'r corfforol yn canolbwyntio ar:

- weithgarwch corfforol sy'n ymateb yn ymarferol i anghenion pobl eraill ac yn dangos gweithredoedd (cymdeithasol) cadarnhaol a ffordd gadarnhaol o fyw
- gweithgareddau corfforol sy'n greadigol, yn ymatebol ac yn cynorthwyo pobl i gydymdeimlo ac ymdrin â heriau bywyd, er enghraifft defodau a dawnsio crefyddol a gweddïo
- gweithgareddau corfforol sy'n hybu lles a chydbywysedd, yn cynorthwyo i egluro prosesau meddwl, ac yn ysbrydoli, er enghraifft myfyrio, llonyddu ac ioga.

Cynnydd mewn addysg grefyddol

Addysg grefyddol yn ystod y Cyfnod Sylfaen

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae plant yn chwilfrydig ac yn naturiol maent yn gofyn cwestiynau am fywyd a'r byd o'u cwmpas. Mae plant wedi'u swyno gan eu hunain, eu teuluoedd, pobl eraill a rhyfeddodau'r byd. Mae'r diddordeb mawr hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'u datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol a gellir ei feithrin trwy brofiadau'n ymwneud â 'Pobl, credoau a chwestiynau'. Mae'r diddordeb a'r brwdfrydedd naturiol hwn yn gwneud i blant fod eisiau ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol yn ystod y Cyfnod Sylfaen, sy'n seiliau hanfodol ar gyfer addysg grefyddol yn ystod Cyfnod Allweddol 2. Trwy weithgareddau difyr, ymarferol ac integredig, gall blant ddysgu mwy am eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u cwmpas a datblygu dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol gyfoethog Cymru. Mae gwybodaeth am eu treftadaeth a'u traddodiadau eu hunain (trwy straeon a gwaith cymryd rhan) yn eu galluogi i ddeall mwy am eu hunain a'u cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau pobl eraill, sy'n datblygu parch ac agweddau cyfrifol. Trwy chwarae, mae plant yn datblygu eu syniadau, eu barn ar bethau a'u teimladau gyda dychymyg, creadigrwydd a chydymdeimlad a all fod o gymorth i lywio'r ffordd maent yn gweld y byd, eu dyheadau a'u breuddwydion. Wrth fynegi eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain, gallant weld sut y gallai eu gweithredoedd effeithio ar bobl eraill, gan gydnabod y gallai safbwyntiau pobl eraill fod yn debyg neu'n wahanol i rai eu hunain a myfyrio ar eu safbwyntiau o fywyd a'u diwygio fel sy'n briodol.

Addysg grefyddol yn ystod Cyfnod Allweddol 2

Yn ystod Cyfnod Allweddol 2, mae addysg grefyddol yn meithrin diddordeb a rhyfeddod dysgwyr at y byd a phrofiadau'r ddynol ryw. Mae hyn yn eu hysgogi i godi ac ymchwilio i gwestiynau dwys sy'n ymwneud â'u profiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol, gan adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Trwy weithgareddau ymarferol difyr a thrwy archwilio crefydd yn eu hardal leol yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau ac yn casglu gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i feddwl yn greadigol am gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a rhannu syniadau trwy drafod. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a chydabyddiaeth o bwysigrwydd crefydd i fywydau pobl o gymorth i ddatblygu goddefgarwch a pharch, a ddylai feithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang. Trwy gymryd rhan ymarferol, bydd dysgwyr yn archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol er mwyn llywio eu cwest personol am ystyr a phwrpas. Bydd dysgwyr yn mynegi eu teimladau a'u barn eu hunain, yn nodi sut allai eu gweithredoedd effeithio ar bobl eraill, yn cydnabod y gall safbwyntiau pobl eraill fod yn debyg neu'n wahanol i rai eu hunain ac yn myfyrio ar eu safbwyntiau eu hunain o fywyd a'u diwygio fel sy'n briodol.

Addysg grefyddol yn ystod Cyfnod Allweddol 3

Yn ystod Cyfnod Allweddol 3, mae addysg grefyddol yn cymhell dysgwyr i feddwl dros eu hunain er mwyn datblygu dealltwriaeth o fywyd a'r byd, a chwilio am ystyr sy'n eu hysbrydoli i wneud newidiadau personol, cymdeithasol a byd-eang, gan adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd yn ystod Cyfnod Allweddol 2. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, sbarduno trafodaethau ac ymchwiliadau personol i grefydd yn eu hardal leol yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang, bydd dysgwyr yn defnyddio ac yn gwerthuso eu safbwyntiau'n ymwneud â chwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol; wrth wneud hynny, byddant yn cael cyfleoedd i feddwl yn greadigol a gofyn cwestiynau mwy dwys sy'n herio mwy. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a'r effaith mae crefydd a syniadau crefyddol yn ei chael yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang yn meithrin mwy o ddealltwriaeth o arwyddocâd crefydd a'i phwysigrwydd o ran hybu cydlynad cymdeithasol, sefydlogrwydd, dinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd. Trwy brofiadau difyr, bydd dysgwyr yn myfyrio ar ddimensiynau ysbrydol a moesol bywyd, gan gydnabod pwysigrwydd yr hyn nad yw'n faterol i bobl grefyddol a phobl nad ydynt yn grefyddol. Bydd cyfleoedd i ddysgwyr fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u barn eu hunain am eu cwest am ystyr â digon o ysgogiad i ysbrydoli a hyrwyddo'r syniad o fod yn agored i syniadau newydd.

Addysg grefyddol yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, mae addysg grefyddol yn ysgogi dysgwyr i fynd i'r afael â chwestiynau a materion sylfaenol sy'n berthnasol i'w hanghenion unigol, yn bodloni gofynion y byd modern ac yn cymhell a herio eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill, gan adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd yn ystod y cyfnodau allweddol blaenorol. Trwy gymryd rhan ymarferol, trafodaethau llawn her ac ymchwiliadau dwys i grefydd a syniadau crefyddol/syniadau nad ydynt yn grefyddol sy'n amlwg yn eu hardal leol yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn fyd-eang, dylai dysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'i chysylltu â damcaniaethau presennol a datblygu rhagdybiaethau, gan ofyn cwestiynau mwy dwys sy'n cynnig mwy o her. Bydd gwybodaeth ddwys ac eang am grefydd a syniadau crefyddol yn meithrin cydymdeimlad a pharch diwylliannol, gwerthfawrogiad o amrywiaeth, mwy o gydlynad a chyfrifoldeb cymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae addysg grefyddol yn crisialu datblygiad ysbrydol a moesol, a gall gymhell ymatebion personol llawn mynegiant pan fo dysgwyr yn darganfod amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwerthoedd byd-eang sydd y tu hwnt i bethau daearol a materol, a phan deflir goleuni arnynt gan gysylltiadau neu ymwybyddiaeth a ddeallir o'r newydd. Trwy archwilio, dylai dysgwyr ddechrau deall bod casgliadau a gyrhaeddir o ran cwestiynau sylfaenol a phersonol yn anghyflawn, yn amhendant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

Crynodeb o Ofynion ar gyfer Addysg Grefyddol Iedled y Cyfnod Sylfaen/y Cyfnodau Allweddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gofynion o ran archwilio Cristnogaeth a chrefyddau eraill y byd. Bwriad eglur y Maes Llafur Cytûn hwn yw peidio â bod yn rhagnodol yn hyn o beth. Fodd bynnag, disgwylir y bydd Cristnogaeth yn cael ei archwilio yn ystod pob cam / cyfnod allweddol ac y bydd pob cam a chyfnod allweddol hefyd yn archwilio agweddau ar amrywiaeth o grefyddau eraill y byd. Bydd angen i ysgolion roi ystyriaeth i gyfleoedd dysgu'r gorffennol a'r dyfodol er mwyn sicrhau y bydd disgyblion wedi cael cyfle i fynd i'r afael ag agweddau ar holl brif grefyddau'r byd a gynrychiolir ym Mhrydain erbyn iddynt orffen yr ysgol. Dylai ysgolion ystyried hefyd unrhyw ganllawiau a gynigir gan yr AALL o ran yr agwedd hon ar y Maes Llafur Cytûn.

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen:

dylid cyflwyno'r plant i agweddau ar grefydd sy'n cael eu mwynhau a'u dathlu gan y rhai sy'n dilyn ffydd yn eu bywydau beunyddiol ac ystyried sut allai agweddau ar eu bywydau eu hunain fod yn debyg neu'n wahanol. Dylid dewis enghreifftiau o ddysgeidiaethau ac arferion credoau crefyddol o Gristnogaeth ac amrywiaeth o grefyddau eraill. Dylid rhoi pwyslais ar ddatblygu dealltwriaeth o bobl a'u credoau trwy gyfleoedd dysgu trwy brofiad ymarferol.

Yn ystod Cyfnod Allweddol 2:

dylai disgyblion fod yn gyfarwydd â straeon bywyd bras y ffigyrau allweddol sydd wedi llywio prif grefyddau'r byd. Dylent archwilio amrywiaeth o syniadau, credoau ac agweddau sy'n gysylltiedig â'u bywydau eu hunain a bywydau'r rhai sy'n dilyn crefydd. Dylent ystyried sut mae'r syniadau, y credoau a'r agweddau hyn yn effeithio ar ffordd rhywun o fyw. Dylid cymryd enghreifftiau o Gristnogaeth ac amrywiaeth o grefyddau eraill y byd.

Yn ystod Cyfnod Allweddol 3:

dylai disgyblion dynnu ynghyd yr holl agweddau ar yr hyn iddynt ei ddysgu'n flaenorol ac adeiladu arnynt er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gydlynol o Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd. Trwy archwilio syniadau, agweddau a materion cyfredol sy'n gysylltiedig â'u bywydau eu hunain a bywydau'r rhai sy'n dilyn ffydd, dylent ystyried goblygiadau dilyn ffydd yn y gymdeithas sydd ohoni. Dylid cymryd enghreifftiau o Gristnogaeth ac amrywiaeth o grefyddau eraill y byd.

Yn ystod Cyfnod Allweddol 4:

dylai disgyblion archwilio materion a phenblethau crefyddol a moesol sy'n wynebu unigolion a chymunedau yn y 21ain ganrif. Dylent ystyried y dylanwadau sy'n effeithio ar greddoau ac agweddau pobl ac ystyried ymatebion eu hunain a phobl eraill i'r materion hyn. Dylid cymryd enghreifftiau o Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd. Fel arall, gellir dilyn cwrs astudiaethau crefyddol / addysg grefyddol sy'n cynnig achrediad ac y gellir ei ddilyn er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu addysg grefyddol yn ystod y cyfnod allweddol hwn.

Ôl-16:

dylai myfyrwyr archwilio ac ystyried perthnasedd a gwerth gwybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd o greddoau ac agweddau crefyddol pobl a sut y bydd hyn yn eu cynorthwyo yn eu bywydau fel oedolion yn y presennol a'r dyfodol ac ym myd gwaith. Dylid cymryd enghreifftiau o Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd. Fel arall, gellir dilyn cwrs astudiaethau crefyddol / addysg grefyddol sy'n cynnig achrediad ac y gellir ei ddilyn er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu addysg grefyddol yn ystod y cyfnod allweddol hwn.

Pobl, Credoau a Chwestiynau

Mae Pobl, Credoau a Chwestiynau'n hawl anstatudol i blant mewn ysgolion a dosbarthiadau meithrin ac yn ddarpariaeth anstatudol i blant yng ngweddill y Cyfnod Sylfaen.

Dylai plant yn y Cyfnod Sylfaen ddysgu am eu hunain, eu teuluoedd, y gymuned leol, diwylliant a chredoau. Dylid rhoi profiadau iddynt sy'n eu cynorthwyo i gynyddu eu chwilfrydedd a'u dealltwriaeth o ddiwylliannau a chredoau pobl eraill yn yr ardal leol, yng nghyd-destun ehangach Cymru, Prydain a'r byd. Trwy weithgareddau profiad dan do ac yn yr awyr agored, dylent ddatblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd mae pobl yn mynegi eu credoau yn eu bywydau beunyddiol. Dylent ddatblygu dealltwriaeth y gall pobl fod â ffyrdd tebyg a gwahanol o fyw a chredoau tebyg a gwahanol. Gan ddefnyddio eu holl synhwyrau, dylid eu hannog i fwynhau dysgu trwy archwilio, ymholi, gofyn cwestiynau a cheisio dod o hyd i atebion. Dylent ddysgu i fynegi eu syniadau, eu barn a'u teimladau eu hunain gyda dychymyg, creadigrwydd a chydymdeimlad. Dylent ddatblygu a chyfathrebu amrywiaeth gynyddol o eirfa briodol. Dylid datblygu sgiliau'r plant ledled pob maes dysgu, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiad gan ddefnyddio adnoddau fel ymwelwyr, mannau addoli, byd natur ac arteffactau ac adnoddau fel llyfrau, straeon, ffotograffau, fideo/DVD a CD ROMau.

Dylid archwilio maes Pobl, Credoau a Chwestiynau o fewn cwricwlwm integredig ac ynghyd â meysydd eraill y Cyfnod Sylfaen. Mae cysylltiadau naturiol yn arbennig o amlwg gyda'r meysydd Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a chyda Datblygiad Creadigol.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Datblygiad Personol

Gall llawer o'r sgiliau a nodwyd ar gyfer Datblygiad Personol yn y Cyfnod Sylfaen hefyd fod yn gysylltiedig ag addysg grefyddol. Dyma rai o'r sgiliau hyn:

- mynegi a chyfathrebu gwahanol deimladau ac emosiynau – rhai eu hunain a rhai pobl eraill
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd a dysgu
- meddwl a dysgu'n annibynnol trwy ddefnyddio syniadau a strategaethau a ystyriwyd yn drylwyr
- gwerthfawrogi addysg a llwyddiannau eu hunain a phobl eraill

Datblygiad Cymdeithasol

Gall yr holl sgiliau a nodwyd yn y Cyfnod Sylfaen hefyd fod yn gysylltiedig ag addysg grefyddol. Dyma rai o'r sgiliau hyn:

- datblygu hunanddelwedd gadarnhaol a theimlad o fod yn perthyn fel rhan o wahanol gymunedau a bod â dealltwriaeth o'u hunaniaeth eu hunain
- datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a gwahanol anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl eraill yn eu diwylliant eu hunain ac mewn diwylliannau eraill
- trin pobl o bob cefndir diwylliannol mewn ffordd sy'n dangos parch a dealltwriaeth
- datblygu dealltwriaeth o'r swyddogaethau amrywiol mae pobl yn eu cyflawni mewn gwahanol grwpiau a chymunedau
- dechrau cwestiynu enghreifftiau o stereoteipio

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol

Gall yr holl sgiliau a nodwyd ar gyfer Datblygiad Moesol ac Ysbrydol yn ystod y Cyfnod Sylfaen fod yn gysylltiedig ag addysg grefyddol hefyd. Dyma'r sgiliau hyn:

- ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig, yn greadigol ac yn reddfodol
- cyfathrebu am yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn dangos gofal neu'n anystyriol
- cyfathrebu a myfyrio ar y penderfyniadau a wneir mewn straeon, sefyllfaoedd neu'n bersonol, gan awgrymu ymatebion eraill yn hytrach na'r rhai a wnaed
- ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol gan roi rhesymau am benderfyniadau a wneir
- defnyddio straeon neu sefyllfaoedd i godi cwestiynau pam fod rhai pethau'n arbennig
- mynegi syniadau a theimladau'n greadigol, gan esbonio pam eu bod yn arwyddocaol
- trafod dewisiadau sydd ar gael i unigolion ac a yw'r dewisiadau sydd ar gael yn gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth
- gofyn cwestiynau sut a pham y dylid trin pethau arbennig gyda pharch ac ymateb yn bersonol
- gofyn cwestiynau am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill.

Lles

Gall rhai o'r sgiliau a nodwyd ar gyfer Lles yn ystod y Cyfnod Sylfaen fod yn gysylltiedig ag addysg grefyddol hefyd. Dyma'r sgiliau hyn:

- gwerthfawrogi a chyfrannu at eu lles eu hunain a lles pobl eraill
- bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol
- deall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd a bod gan bobl eraill deimladau
- dangos gofal, parch ac anwyldeb at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd
- datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas a deall yr hyn sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig wrth chwarae ar eu pen eu hunain a chydag eraill

Datblygiad Creadigol

Mae gan ddwy elfen o'r ystod ar gyfer Datblygiad Creadigol yn ystod y Cyfnod Sylfaen gysylltiadau agos ag addysg grefyddol. Yr elfennau hyn yw:

- Ennill profiad o draddodiadau a dathliadau o wahanol ddiwylliannau
- Ennill profiad o gelf, dylunio, cerddoriaeth a dawnys o Gymru ac o ddiwylliannau eraill.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Mae gan lawer o'r sgiliau ar gyfer datblygu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn ystod y Cyfnod Sylfaen gysylltiad agos â'r sgiliau ar gyfer addysg grefyddol yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

Pobl, Credoau a Chwestiynau

Sgiliau

Dylid rhoi cyfle i blant ddatblygu chwilfrydedd a dealltwriaeth trwy:

- archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd, yn cynnwys cymryd rhan, ymweld â mannau arbennig/crefyddol, gwneud a defnyddio arteffactau a bwydydd gan ddefnyddio TGCh
- ystyried a gofyn cwestiynau am eu hunain, pobl eraill a phethau byw, a gwrando ar yr atebion
- ymateb i'w syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill, yn cynnwys eu gobeithion, eu breuddwydion, eu barn ar bethau, rheolau a'r ffordd maent yn ymateb i adegau hapus a thrist
- bod yn ymwybodol o lwyddiannau bodau dynol, yn cynnwys pobl grefyddol ddylanwadol yn y gorffennol a'r presennol a'r 'syniadau mawr' sydd wedi siapio'r byd
- cymharu a nodi tebygrwydd rhwng hunaniaeth, ffordd o fyw, cymuned a thraddodiad
- ymchwilio i ffynonellau a materion a godwyd trwy straeon, llyfrau sanctaidd, gwyliau, dathliadau a defodau newid byd
- meddwl yn greadigol a chyda dychymyg am gwestiynau dynol a chrefyddol pwysig

Ystod

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- archwilio amrywiaeth eang o bethau diddorol
- mynd i'r afael ag adnoddau o amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys ffurfiau rhyngweithiol
- archwilio amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn cynnwys amodau naturiol wrth iddynt godi
- cymryd rhan mewn gwahanol fathau o chwarae ac amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd, yn cynnwys y rhai sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol
- gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn grwpiau bach a mawr

Cwestiynau, Ystyr ac Ymatebion

- Dylai plant gael cyfleoedd i gwestiynu, deall ystyr ac ystyried ymatebion
- gofyn cwestiynau am gredoau, gweithredoedd a safbwyntiau eu hunain a phobl eraill
- archwilio ystyr straeon, arwyddion, symbolau, defodau, arteffactau a delweddu
- ystyried ymatebion eu hunain ac ymatebion pobl eraill i gwestiynau a syniadau personol, crefyddol a moesol

- disgrifio'r hyn maent wedi'i ddarganfod am bobl, credoau a chwestiynau a chynnig esboniadau syml
- mynegi eu barn a'u teimladau eu hunain, a gwneud penderfyniadau gan ystyried safbwyntiau pobl eraill
- defnyddio a chyfarwyddo eu hunain â geiriau ac ymadroddion sy'n gyffredin i'w byd a'r ffyrdd mae pobl yn mynegi syniadau, credoau ac ystyr
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd wrth ddysgu am bobl o wahanol grefyddau a diwylliannau
- adnabod y berthynas rhwng teimladau, credoau a gweithredoedd
- adnabod bod gan bobl eraill deimladau a chredoau sy'n effeithio ar y ffordd maent yn meddwl ac yn ymddwyn

Fi Fy Hun

Dylid rhoi cyfle i blant ystyried

- eu cartrefi, eu teuluoedd a'u profiadau er mwyn archwilio eu hunaniaeth
- eu swyddogaeth a'u lle o fewn y teulu a'r gymuned
- yr hyn maent yn ei hoffi, yr hyn nad ydynt yn ei hoffi, eu teimladau a'u hymatebion personol i wahanol brofiadau a syniadau
- eu dewisiadau a'u penderfyniadau a'r goblygiadau

Pobl Eraill

Trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau, dylid rhoi cyfleoedd i blant archwilio

- agweddau tebyg a gwahanol ar ffyrdd o fyw a thraddodiadau (e.e. cartrefi, teuluoedd, gwisg, bwyd, gwyliau pobl eraill)
- pobl arbennig o'r gorffennol, eu dylanwad a pham fod pobl yn eu cofio (e.e. Iesu Grist, Muhammad, Mari Jones)

- swyddogaethau a lle pobl yn y gymuned a sut a pham maent yn cynorthwyo pobl eraill (e.e. arweinwyr crefyddol, athrawon Ysgol Sul, gweithwyr elusennol, cynorthwywyr lleig)
- yr hyn sy'n dylanwadu ar ddewisiadau a phenderfyniadau pobl eraill (e.e. codau ymddygiad moesol, dysgeidiaethau a rheolau crefyddol)
- yr hyn sy'n digwydd mewn mannau addoli a myfyrio yn yr ardal leol a'r byd ehangach a pham fod pobl yn mynd i'r lleoedd hyn

Pethau Byw

Dylid rhoi cyfleoedd i blant archwilio

- y ffyrdd maent yn dangos gofal, pryder, cyfrifoldeb a pharch at bethau byw, yr amgylchedd a byd natur, a'r rhesymau pam eu bod nhw ac eraill yn gwneud hyn
- straeon crefyddol a seciwlar a'u negeseuon am fyd natur
- syfrdandod, rhyfeddod, dirgelwch ac ysbrydolrwydd y byd rydym yn byw ynddo

Canlyniadau ar gyfer addysg grefyddol

Mae'r canlyniadau canlynol ar gyfer addysg grefyddol yn anstatudol.

Nodwyd Canlyniadau 1, 2 a 3 i gydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio'n is na Lefel 1.

Mae Canlyniadau Addysg Grefyddol 1, 2 a 3 yn cyfateb i Ganlyniadau 1, 2 a 3 y Cyfnod Sylfaen. Mae Canlyniadau Addysg Grefyddol 4, 5 a 6 yn cyfateb i Lefelau 1, 2 a 3 y Maes Llafur Cytûn.

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad Cyfnod Sylfaen 1
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 2
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 3
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 4
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 5
Canlyniad Cyfnod Sylfaen 6

Addysg Grefyddol

Canlyniad Addysg Grefyddol 1
Canlyniad Addysg Grefyddol 2
Canlyniad Addysg Grefyddol 3
Canlyniad Addysg Grefyddol 4 yn cyfateb i Lefel 1
Canlyniad Addysg Grefyddol 5 yn cyfateb i Lefel 2
Canlyniad Addysg Grefyddol 6 yn cyfateb i Lefel 3

Mae'r canlyniadau addysg grefyddol yn disgrifio'r mathau a'r amrywiaeth o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar ganlyniad penodol ei ddangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu canlyniad cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd y cyfnod allweddol, dylai athrawon benderfynu pa ddisgrifiad sy'n cyfateb orau i berfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ynghyd â'r disgrifiad ar gyfer y canlyniadau nesaf atynt.

Canlyniad 1

Mae disgyblion yn adnabod eu hunain, pobl, lleoedd a gwrthrychau cyfarwydd mewn lluniau/straeon ac yn dangos gwybodaeth am drefn. Mae disgyblion yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfathrebu arsylwadau am straeon ac arteffactau crefyddol cyfarwydd. Gydag anogaeth, mae disgyblion yn dechrau cyfathrebu sut maent yn teimlo a thrafod profiadau fel ymweliadau ag adeiladau, gwyliu a dathliadau arbennig.

Canlyniad 2

Mae disgyblion yn ymateb i gwestiynau agored am eu teimladau a'u profiadau ('beth?', 'ble?'). Maent yn cynnig eu syniadau eu hunain, gan wneud cysylltiadau/proffwydoliaethau weithiau. Mae disgyblion yn trin ac yn archwilio arteffactau ac yn dangos rhywfaint o wybodaeth am bobl, llyfrau a manau addoli arbennig. Maent yn ymateb i straeon a digwyddiadau o'r gorffennol a'r presennol. Maent yn dechrau uniaethu gyda theimladau pobl eraill fel y'u portreadir mewn straeon a digwyddiadau crefyddol o'r gorffennol a'r presennol.

Canlyniad 3

Mae disgyblion yn gallu cofio digwyddiadau arwyddocaol o'r gorffennol a rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Mae disgyblion yn cynnig syniadau ac arsylwadau annibynnol am bethau sy'n ymwneud â nhw yn eu bywydau. Mae disgyblion yn cyfathrebu eu gwybodaeth ddatblygol am straeon, digwyddiadau a gwrthrychau crefyddol ac yn dangos rhywfaint o werthfawrogiad bod y pethau hyn yn arbennig. Mae disgyblion yn gynyddol ymwybodol o anghenion pobl eraill ac yn sensitif iddynt, ac yn deall y dylid trin pethau byw gyda pharch a gofal.

Canlyniad 4

Mae disgyblion yn trafod eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Maent yn atgofio ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylweddol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth bod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig. Maent yn cydnabod y gall eu teimladau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau fod yn debyg neu'n wahanol i rai pobl eraill. Weithiau, maent yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn briodol i fynegi eu syniadau.

Canlyniad 5

Mae disgyblion yn gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac yn awgrymu rhai atebion. Maent yn atgofio ac yn cyfathrebu'n syml rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion sylfaenol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn awgrymu, yn syml, pam fod yr agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl. Maent yn siarad yn syml am eu teimladau, eu gweithredoedd a'u barn eu hunain a rhai pobl eraill. Maent yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn briodol.

Canlyniad 6

Mae disgyblion yn trafod y cwestiynau a godir gan eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barn eu hunain. Maent yn disgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn disgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Maent yn disgrifio eu teimladau, eu gweithredoedd a'u barn eu hunain, ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Maent yn dechrau adnabod bod ystyr i symbolau crefyddol, ac yn defnyddio geirfa crefyddol yn briodol.



Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a'u defnyddio i godi ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid gwneud hyn trwy **ryngberthynas rhwng tri sgil craidd** y pwnc.

- **Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar y cwest am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudio addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, llyfrau sanctaidd, ffyrdd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n cynnig golwg ar y cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion a godwyd wrth astudio â phrofiadau'r disgyblion eu hunain gan eu galluogi i ddatblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol yn ogystal â'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyfarwyddo ei gilydd a dylid defnyddio bob un o'r tri'n briodol i'r ystod a astudir.

Sgiliau

Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol a godir gan eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- archwilio amrywiaeth o fathau o dystiolaeth o ffynonellau crefyddol a ffynonellau nad ydynt yn grefyddol, yn cynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn ystyried y materion a godir
- defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn cyflwyno a chefnogi dadleuon a safbwyntiau
- datblygu esboniadau amgen ac awgrymu posibilïadau newydd
- ymchwilio â meddwl agored a bod yn barod i dderbyn her yng ngoleuni gwybodaeth neu dystiolaeth newydd.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau trwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau astudio canlynol. Ni ddylid eu hystyried fel pynciau ar wahân ond yn hytrach fel meysydd astudio wedi'u gweu at ei gilydd sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion drafod, archwilio a mynegi syniadau ac ymatebion. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan, byddai'n rhesymol disgwyl bod disgyblion wedi mynd i'r afael â bob agwedd ar yr ystod.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau trwy fynd i'r afael â'r:

Byd

- **dechreuad a diben bywyd** - sut mae dehongliadau o ddechrau'r byd a bywyd yn dylanwadu ar safbwyntiau pobl, e.e. *ystyr a gwerthoedd*
- **byd natur a phethau byw** – sut mae crefyddau'n dangos gofal a chyfrifoldeb, e.e. *stiwardiaeth; cynaliadwyedd*

Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- atgofio, disgrifio a dechrau esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol
- archwilio a gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol
- disgrifio a dechrau esbonio'r effaith mae crefydd yn ei gael ar fywydau credinwyr
- nodi agweddau sy'n debyg a gwahanol o fewn a rhwng crefyddau
- adnabod a dechrau dehongli haenau ystyr/symbolaeth mewn straeon, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- fynegi a dechrau cyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain mewn gwahanol ffyrdd, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy gelfyddydau creadigol*
- dangos sut mae'r hyn maent wedi'i ddysgu wedi effeithio ar eu safbwyntiau/syniadau eu hunain
- ystyried, gwerthfawrogi, parchu a chydymdeimlo â safbwyntiau pobl eraill
- adnabod, archwilio a myfyrio ar ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio amrywiaeth o iaith grefyddol yn briodol
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i ddod o hyd i wybodaeth a chyfathrebu syniadau crefyddol.



Profiad dynol

• **hunaniaeth ddynol** – y ffordd mae crefyddau'n deall bodolaeth ddynol, e.e. *delwedd Duw; unigrywiaeth; ysbrydolrwydd*

• **ystyr a phwrpas bywyd** – sut mae syniadau, gwerthoedd a chredoau crefyddol yn dylanwadu ar ymatebion pobl i fywyd a marwolaeth

• **perthyn** – sut mae credinwyr lleol, trwy ddathliadau cartref/cymunedol, yn rhannu teimlad o hunaniaeth ac ymroddiad



• **awdurdod a dylanwad** – sut mae gwahanol fathau o awdurdod fel llyfrau sanctaidd, arweinwyr a chodau crefyddol yn llywio a dylanwadu ar fywydau pobl

• **perthnasau a chyfrifoldeb** – sut mae crefydd yn dangos pwysigrwydd perthnasau personol a chyfrifoldeb i bobl eraill

• **taith bywyd** – sut mae crefydd yn cydnabod, yn dathlu ac yn ymateb i gamau amrywiol bywyd a digwyddiadau naturiol, e.e. *defodau newid byd; profiadau sy'n herio ac yn ysbrydoli*

Chwilio am ystyr

• **anfaterol/ysbrydol** – sut mae crefyddau (trwy straeon, dathliadau a gweithgareddau) yn dangos bod bywyd yn ysbrydol (yn fwy na materol/ffisegol)

• **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – sut y datblygir ac y deallir profiad crefyddol/ysbrydol, e.e. *perthynas gyda Duw; ffordd o fyw, ymroddiad, addoli, gweddio, cerddoriaeth, dawnys, myfyrio ac ymprydio.*



Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a'u defnyddio i godi ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid gwneud hyn trwy **ryngberthynas rhwng tri sgil craidd** y pwnc.

- **Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar y cwest am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudio addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, llyfrau sanctaidd, ffyrdd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n cynnig golwg ar y cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion a godwyd wrth astudio â phrofiadau'r disgyblion eu hunain gan eu galluogi i ddatblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol yn ogystal â'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyfarwyddo ei gilydd a dylid defnyddio bob un o'r tri'n briodol i'r ystod a astudir.

Sgiliau

Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol a godir gan eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwrpas ac agweddau ar grefydd
- defnyddio eu profiadau eu hunain ac amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a ffynonellau nad ydynt yn grefyddol, yn cynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn casglu tystiolaeth a datblygu dadleuon priodol
- defnyddio technegau datrys problemau ac ystyriaethau beirniadol, creadigol a greddfod i archwilio rhagdybiaethau, posibiliadau/esboniadau
- datblygu dadleuon a chyfiawnhau safbwyntiau gan gydnabod bod y casgliadau'n anghyflawn, yn amhendiant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau trwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau astudio canlynol. Ni ddylid eu hystyried fel pynciau ar wahân ond yn hytrach fel meysydd astudio wedi'u gweu at ei gilydd sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion drafod, archwilio a mynegi syniadau ac ymatebion. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan, byddai'n rhesymol disgwyl bod disgyblion wedi mynd i'r afael â bob agwedd ar yr ystod.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau trwy fynd i'r afael â'r:

Byd

- **dechreuad a diben bywyd** – pam fod crefyddau'n gwerthfawrogi pethau byw a bod ganddynt safbwyntiau cadarnhaol ar fyd natur: trwy drafodaethau cyfoes am ddechreuad, pwrpas a sancteiddrwydd bywyd a'r berthynas rhwng byd natur, bodau dynol a Duw.

- **byd natur a phethau byw** – pam fod crefyddau unigol yn cydnabod pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb dros fyd natur a rhoi eu credoau ar waith trwy weithredu, e.e. *bywyd fel rhodd; cynaliadwyedd*

Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- atgofio, disgrifio ac esbonio'r credoau, y dysgeidiaethau a'r arferion crefyddol yr ymchwilir iddynt
- gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac ymchwilio iddynt er mwyn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o syniadau/cysyniadau crefyddol
- disgrifio ac esbonio agweddau sy'n debyg a gwahanol o fewn a rhwng crefyddau
- disgrifio ac esbonio sut mae crefydd yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau lleol a chymdeithas ehangach, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddehongliadau
- dadansoddi a dehongli'r haenau ystyr/symbolaeth mewn straeon, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth grefyddol



Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- fynegi a dechrau cyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain mewn gwahanol ffyrdd, e.e. ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy gelfyddydau creadigol
- dangos sut mae'r hyn maent wedi'i ddysgu wedi effeithio ar eu safbwyntiau/syniadau eu hunain
- ystyried, gwerthfawrogi, parchu a chydymdeimlo â safbwyntiau pobl eraill
- adnabod, archwilio a myfyrio ar ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio amrywiaeth o iaith grefyddol yn briodol
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i ddod o hyd i wybodaeth a chyfathrebu syniadau crefyddol.



Profiad dynol

• **hunaniaeth ddynol** – pam fod crefyddau'n credu bod gan fodau dynol statws unigryw ymhlith pethau byw a goblygiadau'r gred hon ar ymddygiad, gwerthoedd, cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth bodau dynol, e.e. *delwedd Duw*

• **ystyr a diben bywyd** – sut a pham yr ystyrir bod crefydd yn cynnig golwg ar gwestiynau am wirionedd, ystyr, pwrpas a gwerth, e.e. *bywyd/marwolaeth/bywyd ar ôl marwolaeth; da/drwg/dioddefaint/gobaith ac ati*.

• **perthyn** – sut a pham mae unigolion, cymunedau lleol a chymdeithas yn mynegi hunaniaeth grefyddol ac yn dangos ymroddiad trwy addoli, dathlu, ffordd o fyw ac ati.



• **awdurdod a dylanwad** – sut mae awdurdod crefyddol yn cyfleu syniadau am ddatguddiad, doethineb a gwirionedd/dehongliad a pham fo hyn yn dylanwadu ar gredinwyr, e.e. *trwy lyfrau sanctaidd a sylfaenwyr crefyddol, ac arweinwyr hanesyddol a chyfoes*

• **perthnasau a chyfrifoldeb** - sut mae crefyddau'n dangos rheolau ar gyfer byw, yn cynghori ar wneud

penderfyniadau moesol anodd, yn argymhell ffyrdd o ddatblygu a pharhau perthnasau a chynnig rhesymau pam eu bod yn bwysig, e.e. cywir/anghywir; cyfiawnder/cydraddoldeb; goddefgarwch/parch; anghydfod/cymodi

• **taith bywyd** – sut a pham mae pobl grefyddol yn cyflawni gwahanol swyddogaethau, cyfrifoldebau ac ymroddiadau ar wahanol gyfnodau mewn bywyd, e.e. *troi'n oedolyn/rhiant/asgetig; mynd ar bererindod ac ati*.

Chwilio am ystyr

• **anfaterol/ysbrydol** - sut mae pobl yn archwilio ac yn mynegi materion, syniadau a phrofiadau tra-rhagorol/ysbrydol a pham fod yr ochr ysbrydol hon o fywyd yn bwysig iddynt, e.e. *natur Duw/yr enaid; profiad crefyddol/dimensiynau ysbrydol profiad dynol a gwirionedd/ystyr/dehongliad*

• **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** - sut a pham mae pobl yn datblygu, dehongli a gweithredu ar eu profiad crefyddol/ysbrydol, e.e. *perthynas gyda Duw ac ymatebion iddo; ffordd o fyw/aberth; effaith crefyddol/ymroddiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas; hunaniaeth/amrywiaeth o fewn a rhwng crefyddau*.

Disgrifiadau o lefelau ar gyfer addysg grefyddol

Mae'r disgrifiadau canlynol o lefelau'n disgrifio'r mathau a'r amrywiaeth o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol ei ddangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon benderfynu pa ddisgrifiad sy'n cyfateb orau i berfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ynghyd â'r disgrifiadau ar gyfer lefelau cyfatebol.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif llethol o ddisgyblion fod rhwng Lefelau 2 a 5, a rhwng Lefelau 3 a 7 erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn a darperir disgrifiad o lefel uwch na Lefel 8 i gynorthwyo athrawon i nodi Perfformiad Eithriadol yn ystod Cyfnod Allweddol 3.

Dylid darllen pob datganiad a wneir o fewn y lefelau fel maent yn berthnasol i Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill a astudir.

Lefel 1

Mae disgyblion yn trafod eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Maent yn atgofio ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac arferion sylfaenol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth bod yr agweddau hyn ar grefydd yn arbennig. Maent yn cydnabod y gall eu teimladau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau fod yn debyg neu'n wahanol i rai pobl eraill. Weithiau, maent yn defnyddio geirfa grefyddol syml yn briodol i fynegi eu syniadau.

Lefel 2

Mae disgyblion yn gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, ac yn awgrymu rhai atebion. Maent yn atgofio ac yn cyfathrebu'n syml rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn awgrymu, yn syml, pam fod yr agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobl. Maent yn siarad yn syml am eu teimladau, eu gweithredoedd a'u barn eu hunain a rhai pobl eraill. Maent yn defnyddio geirfa grefyddol syml yn briodol.

Lefel 3

Mae disgyblion yn trafod y cwestiynau a godir gan eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barn eu hunain. Maent yn disgrifio rhai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn disgrifio sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Maent yn disgrifio eu teimladau, eu gweithredoedd a'u barn eu hunain, ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Maent yn dechrau adnabod bod ystyr i symbolau crefyddol, a defnyddio geirfa grefyddol yn briodol.

Lefel 4

Mae disgyblion yn trafod eu hymatebion eu hunain ac ymatebion pobl eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Maent yn disgrifio ac yn dechrau esbonio'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwiliwyd iddynt. Maent yn rhoi enghreifftiau penodol o'r ffyrdd mae'r agweddau hyn yn effeithio ar fywydau credinwyr ac yn dechrau nodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng crefyddau. Maent yn esbonio'n syml sut mae eu teimladau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau'n wahanol i rai pobl eraill. Maent yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn defnyddio amrywiaeth o iaith grefyddol yn briodol.

Lefel 5

Mae disgyblion yn mynegi ac yn cyfiawnhau syniadau a safbwyntiau am gwestiynau sylfaenol yng ngoleuni eu hymchwiliadau a'u profiadau. Maent yn gwneud cysylltiadau rhwng y credoau, y dysgeidiaethau a'r arferion crefyddol a astudir, gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr a nodi tebygrwydd a gwahaniaethau o fewn a rhwng crefyddau. Maent yn esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithredoedd a'u safbwyntiau'n effeithio ar eu bywydau eu hunain, ac yn disgrifio sut mae rhai pobl eraill yn effeithio ar eu bywydau yn yr un modd. Maent yn defnyddio amrywiaeth o eirfa grefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Lefel 6

Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodus a'u profiadau eu hunain er mwyn cyflwyno tystiolaeth a datblygu ymatebion priodol i gwestiynau sylfaenol. Maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y credoau, y dysgeidiaethau a'r arferion crefyddol yr ymchwiliwyd iddynt i gyfnerthu eu dealltwriaeth o grefydd ac i esbonio gwahanol safbwyntiau crefyddol. Maent yn esbonio'r berthynas rhwng eu credoau a'u gweithredoedd eu hunain. Maent hefyd yn esbonio'r berthynas rhwng credoau a gweithredoedd pobl eraill. Maent yn defnyddio amrywiaeth o eirfa grefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth o symbolaeth ac iaith symbolaidd.

Lefel 7

Mae disgyblion yn ymchwilio i gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol o amrywiaeth o safbwyntiau crefyddol ac yn dechrau dod i gasgliadau rhesymegol. Maent yn cysylltu amrywiaeth eang o syniadau crefyddol ag amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion. Maent yn esbonio ac yn cyfiawnhau'n gywir y rhesymau dros yr amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol. Maent yn ystyried goblygiadau eu credoau a'u gweithredoedd eu hunain, yn cymharu'r rhain gyda phobl eraill ac yn dod i gasgliadau cytbwys. Maent yn defnyddio amrywiaeth o eirfa grefyddol yn briodol ac yn gallu esbonio ystyr symbolaidd gwrthrychau, gweithredoedd a/neu iaith grefyddol.

Lefel 8

Mae disgyblion yn ymchwilio i gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol, yn gwerthuso amrywiaeth o bosibiliadau ac yn dod i gasgliadau rhesymol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd. Maent yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth eang o syniadau crefyddol, yn cynnwys safbwyntiau amrywiol ar gredoau, gwerthoedd a thraddodiadau'r crefyddau a astudiwyd. Maent yn gwerthuso'r agweddau amrywiol ar grefydd ac yn esbonio sut maent yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas. Maent yn ymchwilio i'r syniadau crefyddol a astudir, gan werthuso eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill trwy ddadleuon rhesymol a thystiolaeth. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa grefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd.

Perfformiad Eithriadol

Mae disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth a bod atebion yn aml yn anghyflawn ac yn amhendant. Maent yn dadansoddi ac yn rhoi rhesymau am y gwahanol safbwyntiau sydd gan bobl am gredoau, gwerthoedd a thraddodiadau'r crefyddau a astudir, gan gydnabod y gwahaniaethau rhwng crefyddau a gwerthfawrogi tensiwn undod ac amlblwyfaeth o fewn pob crefydd. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ymddygiad a chredoau dilynwyr systemau ffydd amrywiol. O ran y syniadau crefyddol a moesol a astudir, maent yn mynegi barn a ystyriwyd yn drylwyr ar safbwyntiau pobl eraill, yn seiliedig ar waith ymchwil dwys. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang iawn o eirfa grefyddol yn briodol ac yn dangos dealltwriaeth hynod ddatblygedig o iaith symbolaidd.

Addysg grefyddol yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Llwybrau Dysgu 14–19

I ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, bydd addysg grefyddol yn rhan o lwybr dysgu statudol pob unigolyn. Dylid cynllunio'r cwrs astudio a ddilynir i annog galluoedd pobl ifanc fel dysgwyr a'u dymuniad i gael mynediad at gyfleoedd dysgu yn y dyfodol. Yn benodol, dylai'r cwrs gyfrannu mor eang â phosibl at y pedair agwedd ddysgu a nodwyd yn y Craidd Dysgu 14 - 19 Oed.

Mae'r Maes Llafur Cytûn yn darparu Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16.

Mae'r sgiliau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16 yr un fath, ond mae'r ystod yn wahanol.

Gellir dilyn cwrs astudiaethau crefyddol / addysg grefyddol sy'n cynnig achrediad yn hytrach na'r rhaglenni astudio hyn.

Cyfnod Allweddol 4

Yn ystod Cyfnod Allweddol 4, mae'r Maes Llafur Cytûn yn darparu rhaglen astudio su'n berthnasol i ofynion cymwysterau TGAU cyfredol, ond sydd hefyd yn cynnig cyfle i ddarparu cyrsiau cyfoethogi arloesol mewn ysgolion sy'n berthnasol i'r Craidd Dysgu 14–19 Oed a/neu gymwysterau priodol eraill (e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru). Byddai asesiadau ar gyfer astudiaethau o'r fath yn cael eu cynnal yn ffurfiol trwy'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan gorff dyfarnu neu drwy bennu canlyniadau sy'n benodol i ysgolion wedi'u llywio gan y disgrifiadau o lefelau ar gyfer addysg grefyddol yn y Maes Llafur Cytûn.

Ôl-16

Gellir rhoi'r rhaglen astudio hynod amrywiol ar gyfer disgyblion ar lefel ôl-16 ar waith mewn amrywiaeth o ffyrdd arloesol fel rhan o raglen gyfoethogi ysgol. Maent yn gysylltiedig â'r Craidd Dysgu 14-19 Oed a/neu gymwysterau priodol eraill (e.e. Sgiliau Allweddol/Bagloriaeth Cymru), gan alluogi ysgolion i fodloni eu hymrwymadau statudol i ddisgyblion tan eu bod yn 19 oed.

Byddai asesiadau ar gyfer astudiaethau o'r fath yn cael eu cynnal yn ffurfiol drwy'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan gorff dyfarnu neu drwy bennu canlyniadau sy'n benodol i ysgolion wedi'u llywio gan y disgrifiadau o lefelau ar gyfer addysg grefyddol yn y Maes Llafur Cytûn.



Dylid rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a'u defnyddio i godi ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid gwneud hyn trwy **ryngberthynas rhwng tri sgîl craidd** y pwnc.

- **Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar y cwest am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudio addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, llyfrau sanctaidd, ffyrdd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n cynnig golwg ar y cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion a godwyd wrth astudio â phrofiadau'r disgyblion eu hunain gan eu galluogi i ddatblygu ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol yn ogystal â'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyfarwyddo ei gilydd a dylid defnyddio bob un o'r tri'n briodol i'r ystod a astudir.

Sgiliau

Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol a godir gan eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- ymchwilio i gwestiynau sylfaenol o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a ffynonellau nad ydynt yn grefyddol er mwyn gwerthuso amrywiaeth o bosibiliadau a dechrau dod i gasgliadau rhesymol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gesglir
- gweithio'n annibynnol a chyda phobl eraill i greu damcaniaethau, gan ddefnyddio technegau datrys problemau, ystyriaethau beirniadol, creadigol a greddfodol a metawybyddiaeth ddatblygedig i werthuso amrywiaeth o ragdybiaethau, posibiliadau ac esboniadau
- gwerthuso a chyfiawnhau dadleuon a safbwyntiau gan gydnabod bod y casgliadau'n anghyflawn, yn amhendiant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau trwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau astudio canlynol. Ni ddylid eu hystyried fel pynciau ar wahân ond yn hytrach fel meysydd astudio wedi'u gweu at ei gilydd sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion drafod, archwilio a mynegi syniadau ac ymatebion. Yn ystod cyfnod allweddol cyfan, byddai'n rhesymol disgwyl bod disgyblion wedi mynd i'r afael â bob agwedd ar yr ystod.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau trwy fynd i'r afael â'r:

Byd

• **Ile, diben a gwerth bywyd** – dylanwad ac effaith dwyochrog crefydd ar berthnasau, cymunedau a diwylliannau yng Nghymru, Ewrop a'r byd, e.e. *heriau perthnasau (dynol/Duwiol); dyfodol cymunedau; amrywiaeth diwylliannau a chrefyddau*



• **byd natur a phethau byw** – ffyrdd mae crefydd yn ysbrydoli pobl i weithredu yn y gymuned leol ac yn fyd-eang, e.e. *asiantaethau cymorth lleol, cenedlaethol a byd-eang; dylanwad crefydd ar ddinasyddiaeth; stiwardiaeth; cynaliadwyedd; lles anifeiliaid; sancteiddrwydd bywyd*



Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- atgofio, disgrifio ac esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion y crefyddau yr ymchwiliwyd iddynt
- gwneud ac ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion er mwyn dangos dealltwriaeth gydlynol o syniadau/cysyniadau crefyddol
- defnyddio amrywiaeth eang o syniadau crefyddol i gyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion ac esbonio'n gywir amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol
- ystyried tystiolaeth o'r ffordd mae crefydd yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas, gan werthuso amrywiaeth o ddehongliadau
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso haenau o ystyr/symbolaeth mewn straeon, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- gyfathrebu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadleuon rhesymol, safbwyntiau a syniadau personol mewn amrywiaeth o ffyrdd creadigol, e.e. *ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy gelfyddydau creadigol*
- gwerthuso sut y gallai dysgu am yr amrywiaethau o brofiadau crefyddol/ysbrydol a phenderfyniadau moesol effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill
- gwerthfawrogi, parchu a chydymdeimlo â safbwyntiau pobl eraill, ac yna eu gwerthuso, fel y gallant ddod i'w casgliadau rhesymol eu hunain a datblygu agweddau cadarnhaol
- myfyrio ar ddehongliadau o ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio amrywiaeth eang o eirfa grefyddol a dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i ddod o hyd i wybodaeth, er mwyn cyfathrebu syniadau crefyddol.



Profiad dynol

• **hunaniaeth ddynol** – ffyrdd y gwelir ac y gwerthfawrogir natur a hunaniaeth ddynol mewn crefydd a diwylliant yn yr unfed ganrif ar hugain, e.e. *agweddau a gwerthoedd dynol; hunanoldeb ac anhunanoldeb; tegwch, cyfiawnder a chydardoldeb*

• **ystyr a diben bywyd** – materion yn ymwneud â gwirionedd, ystyr, diben a gwerth mewn crefydd, fel da, drwg, ewyllys rydd, ffawd, dioddefaint, diniweidrwydd, gobaith, bywyd/marwolaeth/bywyd ar ôl marwolaeth a materion sy'n codi o ddehongliadau crefyddol a dehongliadau nad ydynt yn grefyddol o ddigwyddiadau a ffenomenau cyfoes, e.e. *penderfyniadau gwleidyddol; gwariant cyhoeddus; trychinebau naturiol; dyled unigolion, cenedlaethol a byd-eang*

• **perthyn** – ffyrdd mae crefydd yn ysbrydoli ymroddiad, ymrwymiad, cysegriad, myfyrdod a dyhead, e.e. *agweddau tebyg rhwng chwaraeon a chrefydd; defnyddio a chamddefnyddio amser hamdden; gwahanol ffyrdd o fynegi ffydd trwy astudio, gweithredu, myfyrio ac addoli*

• **awdurdod a dylanwad** – yr effaith mae crefydd yn ei gael ar broses benderfynu unigolion a chymunedau yng Nghymru, Ewrop a'r byd, e.e. *heriau i ryddid crefyddol; rhyddid i leisio barn/rhyddid gwybodaeth/rhyddid i symud; deddfau sanctaidd/seciwlar; hawliau dynol/sifil; cydwybod, cyfiawnder, rhyddhad, rhyfel, heddwch; cymodi*



• **perthnasau a chyfrifoldeb** – yr effaith mae crefydd yn ei gael ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a moesol eich hun a phobl eraill, e.e. *rheolau ar gyfer byw; hawliau a dyletswyddau; croesawu amrywiaeth; agweddau at adnoddau a'r defnydd ohonynt; heriau i grefydd yn y gweithle/dewisiadau gyrfaol/galwedigaeth; urddas dynol, cydraddoldeb, gonestrwydd, goddefgarwch; cyfrifoldeb*

• **taith bywyd** – ffyrdd mae crefydd yn dylanwadu ar hunaniaeth personol a hunaniaeth grwpiau ac yn ei herio, e.e. *ffasiwn, chwaraeon, amser hamdden; addoli a dathlu; magwraeth; cymuned leol*

Chwilio am ystyr

• **anfaterol/ysbrydol** – ffyrdd traddodiadol a chyfoes o fynegi profiad ac ysbrydolrwydd crefyddol, e.e. *natur Duw; symbolaeth/delweddaeth; profiad o Dduw; rhesymau am gredu mewn Duw; ffydd ac amheuaeth*

• **gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol/ysbrydol** – cryfder yr argyhoeddiad crefyddol/ysbrydol sy'n galluogi pobl i feiddio bod yn wahanol a gwneud safiad i ysgogi newidiadau cadarnhaol, e.e. perthynas â Duw ac ymatebion iddo; effaith crefydd/ymroddiad crefyddol ar unigolion, cymunedau a chymdeithas; hunaniaeth/amrywiaeth o fewn a rhwng crefyddau.

Addysg Grefyddol Ôl-16

Mae addysg grefyddol yn bwnc statudol ar gyfer holl ddisgyblion chweched dosbarth cofrestredig mewn ysgolion. Gall ysgolion ddilyn rhaglenni astudio'r Maes Llafur Cytûn neu ddefnyddio cwrs astudiaethau crefyddol / addysg grefyddol sy'n cynnig achrediad i fodloni'r gofynion statudol.

Bydd angen i ysgolion neilltuo cyllid er mwyn darparu addysg grefyddol yn effeithiol. Gellir defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau darparu. Dylai myfyrwyr gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros ddysgu eu hunain a gallai hyn gynnwys methodoleg sy'n annog sgiliau meddwl a gweithio ar y cyd, gwaith ymchwil personol neu ddefnyddio unedau hunan-astudio â chymorth.

Dylai athrawon fod yn ymwybodol bod rhaid i waith archwilio materion moesol, moesegol a chymdeithasol hefyd gynnwys safbwyntiau crefyddol er mwyn bodloni gofynion y Maes Llafur Cytûn hwn.

Gallai'r dulliau o ddarparu addysg grefyddol gynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- rhan o Gwrs Astudiaethau Cyffredinol;
- cysylltiadau ag Astudiaethau Seicolegol ym maes Addysg (PSE) a Dinasyddiaeth;
- cysylltiadau â Sgiliau Allweddol;
- siaradwr gwadd a thrafodaeth i ddilyn;
- hunanastudiaeth â chymorth yn dilyn mewnbwn cychwynnol;
- ymweliadau â lleoedd o arwyddocâd crefyddol;
- cysylltiadau galwedigaethol yn cynnwys profiad gwaith, a
- chynadleddau diwrnod neu hanner diwrnod sy'n canolbwyntio ar Addysg Grefyddol.

Ym mhob achos, mae'n rhaid gallu nodi addysg grefyddol yn eglur ac mae'n rhaid ymdrin â'r pwnc mewn ffordd ddigon pendant i fynd i'r afael ag adran Sgiliau'r Maes Llafur Cytûn hwn yn llawn.



Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, a'u defnyddio i godi ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol. Dylid gwneud hyn trwy **ryngberthynas rhwng tri sgil craidd** y pwnc.

- **Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol** – cwestiynau dynol a chrefyddol sy'n canolbwyntio ar y cwest am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd yw cwestiynau sylfaenol. Mae ganddynt ddyfnder a dwyster sy'n sail i unrhyw agwedd ar astudio addysg grefyddol.
- **Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol** – mae hyn yn cynnwys archwilio straeon crefyddol, llyfrau sanctaidd, ffyrdd o fyw, defodau a symbolaeth, sy'n cynnig golwg ar y cwestiynau sylfaenol hyn ac yn codi cwestiynau crefyddol a dynol pellach.
- **Mynegi ymatebion personol** – mae hyn yn cynnwys cysylltu'r materion a godwyd wrth astudio â phrofiadau'r disgyblion eu hunain gan eu galluogi i ddatblygu ymatebion personol i greddau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) a chwestiynau sylfaenol yn ogystal â'u gwerthuso.

Mae'r sgiliau craidd hyn yn cyfarwyddo ei gilydd a dylid defnyddio bob un o'r tri'n briodol i'r ystod a astudir.

Sgiliau

Mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sylfaenol a godir gan eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd
- ymchwilio i gwestiynau sylfaenol o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a ffynonellau nad ydynt yn grefyddol er mwyn gwerthuso amrywiaeth o bosibiliadau a dechrau dod i gasgliadau rhesymol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gesglir
- gweithio'n annibynnol a chyda phobl eraill i lunio damcaniaethau, gan ddefnyddio technegau datrys problemau, ystyriaethau beirniadol, creadigol a greddfodol a metawybyddiaeth ddatblygedig i werthuso amrywiaeth o ragdybiaethau, posibiliadau ac esboniadau
- gwerthuso a chyfiawnhau dadleuon a safbwyntiau gan gydnabod bod y casgliadau'n anghyflawn, yn amhendant ac yn agored i wahanol ddehongliadau.

Ystod

Dylai myfyrwyr archwilio ac ystyried perthnasedd a gwerth gwybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd o greddau ac agweddau crefyddol pobl a sut bydd hyn yn eu cynorthwyo yn eu bywydau fel oedolion yn y presennol a'r dyfodol ac ym myd gwaith.

Dylid cymryd enghreifftiau o Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd. Dylid eu seilio ar yr ardal leol a chyd-destun ehangach Cymru, Prydain a'r byd. Students should be given the opportunity to develop skills through the Dylid



Archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- atgofio, disgrifio ac esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion y crefyddau yr ymchwiliwyd iddynt
- gwneud ac ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion er mwyn dangos dealltwriaeth gydlynol o syniadau/cysyniadau crefyddol
- defnyddio amrywiaeth eang o syniadau crefyddol i gyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion ac esbonio'n gywir amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan bobl crefyddol
- ystyried tystiolaeth ar sut mae crefydd yn effeithio ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas, gan werthuso amrywiaeth o ddehongliadau
- dadansoddi, dehongli a gwerthuso haenau o ystyr/symbolaeth mewn straeon, defodau, celf, dawnys a cherddoriaeth grefyddol.

Mynegi ymatebion personol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- gyfathrebu syniadau a chysyniadau crefyddol gan ddefnyddio dadleuon rhesymol, safbwyntiau a syniadau personol mewn amrywiaeth o ffyrdd creadigol, e.e. ar lafar, yn ysgrifenedig, a thrwy gelfyddydau creadigol
- gwerthuso sut y gallai dysgu am yr amrywiaethau o brofiadau crefyddol/ysbrydol a phenderfyniadau moesol effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill
- gwerthfawrogi, parchu a chydymdeimlo â safbwyntiau pobl eraill, ac yna eu gwerthuso, fel y gallant ddod i'w casgliadau rhesymol eu hunain a datblygu agweddau cadarnhaol
- myfyrio ar ddehongliadau o ochr ysbrydol bywyd
- defnyddio amrywiaeth eang o eirfa grefyddol a dangos dealltwriaeth ddatblygedig o iaith symbolaidd
- defnyddio TGCh a dulliau eraill i ddod o hyd i wybodaeth, er mwyn cyfathrebu syniadau crefyddol.



rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau trwy archwilio amrywiaeth o bynciau difyr sy'n llawn her a allai gynnwys:

- Arwyddocâd yr amrywiaeth o ddiwylliannau a chrefyddau yng nghymdeithas Prydain;
- Her cydlynad cymdeithasol a chytgord hiliol yn y 21ain ganrif;
- Crefydd fel achos o anghydfod a chymodi;
- Crefyddau, enwadau, mudiadau a chymunedau;
- Gwyddoniaeth a chrefydd;
- Moeseg feddygol;
- Rhyw a chrefydd;
- Crefydd ac athroniaeth;
- Safbwyntiau crefyddol ar fater moesegol, moesol neu gymdeithasol penodol;
- Yr ymwybyddiaeth grefyddol sydd ei hangen yn y gweithle e.e. meddygaeth, yr heddlu, y gyfraith, arlwygo;
- Crefydd yn y cyfryngau;
- Crefydd a llenyddiaeth;
- Crefydd a chelf;
- Sefydliadau sy'n ymateb i faterion crefyddol a moesol;
- Crefydd a gwleidyddiaeth;
- Hawliau a chyfrifoldebau dynol;
- Profiadau crefyddol ac ysbrydolrwydd, ac
- Arweinwyr, diwygwyr a radicalau crefyddol.

